Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion

# Canllawiau ar Amodau Cymeradwyo a Gweithredu Uned Ynysu TB yng Nghymru

## Uned Ynysu TB Gymeradwy: caniatáu i Wartheg sydd o dan Gyfyngiadau TB gael eu hynysu rhag ffynhonnell unigol gyda'r nod o gyflawni Statws heb TB Swyddogol

### Cefndir a Diben

**Cymeradwywyd Unedau Ynysu TB ar gyfer gwartheg yn unig.**
Cyflwynwyd Unedau Ynysu TB fel y gellir ynysu a phrofi grŵp o wartheg er mwyn cael rhyddid rhag cyfyngiadau TB. Y nod yw creu un grŵp penodol o wartheg sydd â'r un risg o haint (yr un fuches, yr un grŵp oedran, yr un amlygiad blaenorol i'r risg o haint) a statws (dyna pam mae'r cyfnod cofrestru yn gyfyngedig), fel bod trefn brofi TB yn debygol o ganfod haint os yw'n bresennol.

Gellir symud gwartheg i'r Uned Ynysu TB, lle y cânt eu profi ac, os yw'n briodol, lle y gallant adfer Statws heb TB Swyddogol (OTF).

Mae'n darparu man i gadw lloi neu wartheg stôr o ddaliadau sydd o dan gyfyngiadau TB lle nad oes cyfleusterau ar gael ar gyfer magu, a chyfle i ynysu a phrofi gwartheg er mwyn adfer Statws heb TB Swyddogol y gwartheg hynny. Ni ddylid ynysu anifeiliaid unigol.

Nid yw Unedau Ynysu TB wedi'u bwriadu ar gyfer anifeiliaid cyflo ac ni ddylid bridio yn yr unedau hyn. Fodd bynnag, os bydd yr holl gyfleusterau y gall fod eu hangen yn ystod cyfnod estynedig o gyfyngiadau wedi'u lleoli o fewn ffiniau'r uned, gellir ystyried y senarios hyn yn amodol ar asesiad risg milfeddygol boddhaol a chynllun wrth gefn, e.e. rhaid darparu:

- ardal bwrw lloi
- cyfleusterau godro ar gyfer benywod godro
- adeiladau ar gyfer lloi

Lle y bo'n berthnasol, ni ddylai anifeiliaid y disgwylir iddynt fwrw lloi yn ystod y cyfnod y bydd yn ofynnol iddynt aros yn yr uned gael eu trwyddedu i symud i'r uned.

Dim ond ar safleoedd OTF y gellir cymeradwyo Unedau Ynysu TB. Ni ellir eu cymeradwyo ar safle sydd o dan gyfyngiadau symud (TB02/TB02(Cymraeg)), ac ni ellir rhoi Rhif Daliad (CPH) newydd i safle o'r fath chwaith.

Bydd y canlynol yn berthnasol i'r uned:

- rhaid iddi fod o dan gyfyngiadau symud (TB02/TB02(Cymraeg))
- rhaid bod ganddi CPH unigryw ac ar wahân a fydd ond yn cael ei glustnodi ar ôl i'r uned gael ei chymeradwyo
- ni chaniateir i CPH dros dro (tCPH) na Chysylltiad Tir Dros Dro (TLA) fod yn gofrestredig yn ei herbyn ac ni chaniateir i dir/safle sy'n gofrestredig yn erbyn CPH Uned Ynysu TB fod yn gysylltiedig dros dro drwy TLA, nac fel tCPH â CPH arall.
- dim ond â gwartheg o un ffynhonnell a enwir y caniateir iddi gael ei llenwi
- ni ddylid caniatáu mwy na chwe wythnos i lenwi'r uned
- ni chaniateir iddi gynnwys tir pori
- rhaid sicrhau na all bywyd gwyllt fynd i mewn iddi.

### Ffynhonnell y Gwartheg

- gall Unedau Ynysu TB gael gwartheg o un safle sydd o dan gyfyngiadau TB, ond nid o sawl safle
- rhaid i'r holl wartheg fod wedi cael canlyniad prawf clir o fewn y 60 diwrnod blaenorol neu fod yn lloi heb eu profi o dan 42 diwrnod oed ar adeg eu symud
- dim ond o dan awdurdod trwydded symud (TB16/TB16(Cymraeg)) a gaiff ei rhoi gan y swyddfa o fewn yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) sy'n gyfrifol am safle pen y daith y gellir symud gwartheg i'r Uned Ynysu TB
- bydd pob cais i symud yn destun Asesiad Risg Milfeddygol gan APHA a chaiff y rhai yr ystyrir eu bod yn peri risg uchel eu gwrthod
- caiff yr Uned Ynysu TB ei chau ar ôl cyfnod o chwe wythnos ar y mwyaf ac ni roddir rhagor o drwyddedau ar gyfer symud gwartheg i'r safle. Ar ôl iddi gau, rhaid i'r gweithredwr anfon yr Atodiad i'r Llythyr Cymeradwyo ar gyfer Uned Ynysu TB (TR139) wedi'i gwblhau gyda manylion y symudiadau cyntaf ac olaf i mewn i'r uned a rhestr o'r holl anifeiliaid yn yr uned i APHA
- os yw'r fuches wreiddiol yn un sydd ag achosion parhaus o TB (18 mis neu fwy o hyd) pan gaiff gwartheg eu symud i mewn i'r Uned Ynysu TB, ni ellir defnyddio'r prawf olaf yn yr Uned Ynysu TB sy'n arwain at adfer Statws heb TB Swyddogol fel prawf cyn symud oni bai bod y gwartheg a gafodd eu symud i mewn i'r Uned Ynysu TB o dan 180 diwrnod oed pan gawsant eu symud.

**Safle Pen y Daith y Gwartheg**

- nes y bydd Statws heb TB Swyddogol wedi'i sicrhau, ni all y gwartheg adael yr Uned Ynysu TB, ac eithrio o dan drwydded ac yn amodol ar asesiad risg boddhaol. Bydd safle pen y daith wedi'i gyfyngu i ladd-dy neu Uned Besgi Gymeradwy (AFU) o bosibl. Ar ôl sicrhau Statws heb TB Swyddogol a chyflwyno Hysbysiad Tynnu yn Ôl (TB10/TB10(Cymraeg)) sy'n codi'r cyfyngiadau, ni fydd y gwartheg o dan gyfyngiadau symud mwyach a gallant symud heb fod angen trwydded
- os bydd llwyth o wartheg sy'n mynd drwy'r Uned Ynysu TB wedi dod o fuches ag achosion parhaus o TB (18 mis neu fwy o hyd) a bod unrhyw rai o'r gwartheg yn 180 diwrnod oed neu'n hŷn ar y diwrnod pan fyddant yn mynd i mewn i'r uned, pan gaiff Statws heb TB Swyddogol ei adfer, ni ellir defnyddio'r prawf olaf yn yr Uned Ynysu TB fel prawf cyn symud. Nes y gellir cwblhau prawf arall o leiaf 60 diwrnod yn ddiweddarach, dim ond yn syth i gael eu lladd neu i AFU y gall gwartheg adael.

**Profion TB mewn Unedau Ynysu TB**

- ar ôl i'r Uned Ynysu TB gael ei chau, ac ar ôl i'r gweithredwr anfon yr Atodiad i drwydded TB16 wedi'i gwblhau i APHA, caiff profion eu cynnal yn yr uned bob 60 diwrnod. Caiff y prawf Grŵp Cymeradwy ar Wahân (ASG) cyntaf, a ddarllenir o dan amodau llym, ei gynnal o leiaf 60 diwrnod ar ôl i'r anifail olaf fynd i mewn i'r uned
- caiff yr holl wartheg yn yr uned eu profi
- ar ôl i ddau brawf olynol clir gael eu cwblhau, ac ar yr amod bod y prawf olaf yn dechrau o leiaf 120 diwrnod ar ôl y dyddiad y symudwyd yr anifail olaf i mewn i'r uned, gellir rhoi Hysbysiad Tynnu yn Ôl (TB10/TB10(Cymraeg)) er mwyn codi'r cyfyngiadau
- os caiff yr uned ei sefydlu ar ôl Prawf Cyfnod Byr (SIT) clir yn y fuches wreiddiol a bod y fuches wreiddiol yn cael SIT clir wedi hynny, gall y gwartheg yn yr uned adfer Statws heb TB Swyddogol ar ôl un prawf ASG clir a gynhelir o leiaf 60 diwrnod ar ôl i'r anifail olaf fynd i mewn i'r uned.

**Amodau**

Nod yr amodau a restrir isod yw sicrhau bod yr Uned Ynysu TB yn parhau i fod yn uned hunangynhwysol sy'n amlwg wedi'i gwahanu oddi wrth fuchesi eraill. Ni ellir cynnwys tir pori mewn Uned Ynysu TB.

Gellir ystyried cymeradwyo Uned Ynysu TB os yw'r safle arfaethedig yn cydymffurfio â'r amodau canlynol:

- dylai pob uned fodloni'r holl feini prawf gofynnol i fod yn gymwys i gael CPH ar wahân

- dylai unedau fod yn rhai bioddiogel heb unrhyw wartheg na da byw eraill ynddynt, dylid dilyn protocolau bioddiogelwch llym ynddynt a dylai fod ganddynt fynedfa ac allanfa benodedig lle nad oes unrhyw risg o ddod i gysylltiad uniongyrchol nac anuniongyrchol â da byw eraill
- dylai ffiniau'r uned fod:
    - yn glir
    - ar wahân
    - yn effeithiol
    - yn ddiogel
- dylai'r uned gynnwys y canlynol, i gyd ar wahân:
    - adeiladau
    - trefniadau rheoli
    - cyfarpar (gweler isod)
    - peiriannau (gweler isod)
    - buarthau ac ati, a ffens ddwbl â bwlch o 3m neu rywbeth sy'n ateb yr un diben i bob pwrpas
- ni chaniateir i unedau fod wedi'u cydleoli ar fuarth lle mae buches arall, gan gynnwys unrhyw fath o uned TB
- ni ellir cydleoli mwy nag un uned o fewn yr un ardal fuarth, ond gall mwy nag un adeilad o fewn ardal fuarth fod yn dderbyniol fel un uned
- rhaid sicrhau bod digon o le yn yr adeiladau er mwyn galluogi'r gwartheg i dyfu a rhaid nodi'r uchafswm niferoedd yn yr amodau cymeradwyo. Cyfrifoldeb perchennog/gweithredwr yr uned yw sicrhau na thanseilir lles y gwartheg drwy orlenwi. Dylai nifer y gwartheg y gall yr uned eu dal gael ei gynnwys ar y gymeradwyaeth ac mae'n rhaid i'r perchennog/gweithredwr ystyried cynllun wrth gefn er mwyn osgoi amodau lles andwyol posibl os bydd angen i wartheg aros yn yr uned am fwy o amser.  Dylid cofnodi'r cynllun wrth gefn a chytuno arno
- rhaid sicrhau na all bywyd gwyllt fynd i mewn i'r unedau ac yn y cyd-destun hwn mae bywyd gwyllt yn cyfeirio at rywogaethau o famaliaid gwyllt sy'n gallu gweithredu fel cronfeydd o M. bovis, e.e. moch daear
- dewis arall yn lle addasu'r adeiladau yw codi ffens o amgylch yr uned na all bywyd gwyllt fynd drwyddi, fel ffens drydan, a hynny gan ddilyn canllawiau swyddogol, a gellir gwneud hyn yn ogystal â chodi ffens cadw anifeiliaid. Rhaid sicrhau bod unrhyw ffensys a godir ar y ffiniau yn gallu cadw bywyd gwyllt allan o'r uned
- mae amodau addas yn cynnwys:
    - ni ddylai ochrau'r adeilad fod yn agored; dylent fod o adeiladwaith llyfn a chadarn (h.y. fel na all bywyd gwyllt afael ynddynt) a dylent fod o leiaf 1.5m o uchder
    - dylai'r drysau fod o adeiladwaith llyfn a chadarn (h.y. fel na all bywyd gwyllt afael ynddynt) a dylent fod o leiaf 1.5m o uchder (gellir ychwanegu dalenni metel solet at glwyd â phum bar)
    - ni ddylai bylchau wrth ochrau drysau a waliau ac oddi tanynt fod yn fwy na 7.5cm ac ni ddylai bod modd eu gwneud yn fwy drwy gloddio neu gnoi
    - lle mae elifion neu ddŵr gwastraff yn draenio i mewn i ffos gerrig, rhaid atal bywyd gwyllt a da byw rhag mynd i mewn iddi, er enghraifft drwy ddefnyddio ffensys trydan. Bydd hyn yn atal yr amgylchedd a'r bywyd gwyllt rhag cael eu halogi
    - lle y caiff ffensys trydan eu defnyddio o amgylch yr Uned Ynysu TB er mwyn sicrhau na all bywyd gwyllt fynd i mewn iddi, mae'n bwysig nodi mai'r argymhellion swyddogol yw y dylai'r gwifrau fod wedi'u gosod 10, 15, 20 a 30cm uwchlaw'r ddaear
- ni ddylai elifion na dŵr golchi o'r uned ddraenio i ardaloedd lle mae gan anifeiliaid a allai gael TB fynd iddynt. Rhaid ystyried mynediad penodedig i'r uned a symudiadau cerbydau o fewn yr uned fel rhan o'r protocol bioddiogelwch
- rhaid cael cyfarpar penodedig

- caiff tail ei drin fel arfer ar ôl sicrhau Statws heb TB Swyddogol, ond cyn hynny rhaid iddo gael ei bentyrru am 30 diwrnod ar safle'r uned, neu ar safle cymeradwy. Rhaid i'r safle cymeradwy fod yn un sy'n cadw da byw a bywyd gwyllt allan heb unrhyw ddŵr ffo o'r safle
- caiff slyri ei drin fel arfer ar ôl i'r Statws heb TB Swyddogol gael ei adfer, ond os bydd angen gwagio tanciau slyri cyn yr adeg honno, dylai naill ai:
    - gael ei storio am chwe mis ac yna rhaid ei daenu o leiaf 10m o ffin y fferm neu o unrhyw dir a borir gan anifeiliaid a allai gael haint TB, neu o unrhyw adeiladau a ddefnyddir gan yr anifeiliaid hynny (mae hyn yn cynnwys defaid, moch, geifr, camelidau a cheirw fferm neu barc) ac ni fydd unrhyw fynediad i'r tir a gaiff ei drin gan anifeiliaid a allai gael haint TB am:
        - o leiaf 60 diwrnod ar ôl taenu'r slyri yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi
        - o leiaf 120 diwrnod ar ôl taenu'r slyri yn ystod y cyfnod rhwng 1 Hydref a 31 Mawrth
        - lle mae'r cyfnod amser gofynnol yn gorgyffwrdd â'r terfynau ym mis Ebrill a mis Hydref, os yw'n fwy na 30 diwrnod yn ystod y misoedd oerach, yna rhaid defnyddio 120 diwrnod
    - neu beidio â chael ei storio ond ei daenu drwy ei chwistrellu i mewn i'r ddaear.

**Gwneud Cais ac Archwilio**

- dylai unigolion sy'n ceisio cymeradwyaeth ar gyfer Uned Ynysu TB gysylltu ag APHA i gael ffurflen gais, neu gallant gael y ffurflen o wefan GOV.UK: https://www.gov.uk/government/publications/approved-tb-isolation-unit-application
- bydd swyddog/arolygydd yn ystyried y cais ar ôl cael y canlynol:
    - ffurflen gais wedi'i llenwi
    - cynllun o'r safle
    - y protocol bioddiogelwch
    - y cynllun wrth gefn
- os bydd y swyddog/arolygydd o'r farn y gall cymeradwyaeth fod yn bosibl, bydd yn ymweld â'r safle arfaethedig ac yn ei archwilio
- yn dilyn adroddiad archwilio boddhaol ac arwydd bod y cais yn addas i'w gymeradwyo, bydd APHA yn gofyn am CPH newydd gan Taliadau Gwledig Cymru. Ar ôl i'r CPH newydd gael ei roi, bydd APHA yn anfon cadarnhad ysgrifenedig o'r gymeradwyaeth a'r CPH at y gweithredwr, ynghyd â'r amodau a'r gofynion ar gyfer cymeradwyaeth barhaus
- cyflwynir Hysbysiad o Gyfyngiadau TB (TB02/TB02(Cymraeg)) i'r Uned Ynysu TB yn atal anifeiliaid buchol rhag cael eu symud ac anfonir copi i'r Awdurdod Lleol (ALI) perthnasol
- rhoddir trwydded (TB16/TB16(Cymraeg)) i geidwad y fuches wreiddiol er mwyn iddo allu dechrau symud gwartheg
- y gweithredwr sy'n gyfrifol am sicrhau bod CPH yr Uned Ynysu TB wedi'i gofrestru â Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain
- cyflwynir Hysbysiad Tynnu yn Ôl (TB10/TB10(Cymraeg)) i'r Uned Ynysu TB yn codi'r cyfyngiadau pan fydd Statws heb TB Swyddogol y gwartheg yn yr uned wedi cael ei adfer. Ar ôl cwblhau'r gwaith diboblogi gall y perchennog wneud cais am ailgymeradwyaeth os bydd yn dymuno gweithredu fel Uned Ynysu TB eto
- gall y broses ailgymeradwyo gynnwys ymweliad archwilio â'r safle a/neu fwrw golwg dros y cofnodion symud. Caiff pob uned ei harchwilio o leiaf unwaith y flwyddyn tra caiff ei defnyddio, ond APHA fydd yn penderfynu pa mor aml y cynhelir archwiliadau
- ar ôl iddi gael ei hailgymeradwyo, cyflwynir cyfyngiadau symud (TB02/TB02(Cymraeg)) a rhoddir trwydded symud (TB16/TB16(Cymraeg)) i'r ceidwad gwreiddiol fel y gall yr uned ailstocio
- bydd methu â chydymffurfio ag unrhyw un o'r amodau a nodir yn y ffurflen gymeradwyo (gan gynnwys methu â phrofi'r gwartheg yn yr uned ar yr adeg a ragnodir) yn arwain at ymchwiliad gan APHA ac Asesiad Risg Milfeddygol. Bydd cyfyngiadau symud (TB02/TB02(Cymraeg)) yn parhau i fod mewn grym nes y gellir sicrhau Statws heb TB Swyddogol. Yn amodol ar ganlyniad yr Asesiad Risg Milfeddygol, gellir gwneud hyn drwy brofi neu ladd yr anifeiliaid yn

yr uned ac yna lanhau a diheintio'r safle. Nid yw ceisiadau pellach am ailgymeradwyaeth yn debygol o gael eu hawdurdodi yn dilyn achos o ddiffyg cydymffurfio.

**Camau gweithredu os bydd achos o TB mewn Uned Ynysu TB**

- caiff gweithdrefnau safonol APHA ar gyfer iawndal, cael gwared ar adweithwyr a chynnal archwiliadau post-mortem eu dilyn. Caiff iawndal ei leihau ar gyfer unrhyw anifeiliaid y ceir gwared arnynt at ddibenion rheoli TB am fod yr anifeiliaid wedi cael eu symud tra oeddent o dan gyfyngiadau symud
- bydd y gweithdrefnau arferol ar gyfer adfer Statws heb TB Swyddogol yn berthnasol a dilynir trefn brofi cyfnod byr
- bydd angen cynllun wrth gefn ar gyfer pob uned os bydd achos o TB, oherwydd caiff y rhaglen brofi cyfnod byr ei hymestyn. Dylai'r cynllun fynd i'r afael ag unrhyw broblemau lles posibl a all godi, e.e. os bydd yr anifeiliaid yn tyfu'n rhy fawr i'r adeiladau sydd ar gael iddynt, ac ymdrin â thrin a rheoli tail, slyri a sarn yn ystod y digwyddiad.

**Rheoli Rhif y Daliad ar ôl ennill statws Heb TB Swyddogol.**

- pan fydd yr Hysbysiad Tynnu yn Ôl (TB10/TB10(Cymraeg)) wedi'i roi a Statws heb TB Swyddogol wedi'i sicrhau, caiff prawf chwe mis ei drefnu ar gyfer yr uned
- os bydd yr uned wedi'i diboblogi ac nad oes gwartheg wedi'u cofrestru â CPH yr Uned Ynysu TB mwyach, dylid rhoi gwybod i APHA a chaiff y prawf chwe mis ei ganslo. Yna gellir gwneud cais i ailgymeradwyo'r uned os bydd angen
- dim ond i'r Uned Ynysu TB y mae'r CPH yn berthnasol. Ni ddylid ei ddefnyddio at unrhyw ddiben arall. Os na ddefnyddir yr uned mwyach, bydd APHA yn archifo'r CPH dros dro. Bydd APHA hefyd yn gofyn i Taliadau Gwledig Cymru archifo'r CPH. Yna gellir rheoli'r safle fel rhan o'r CPH gwreiddiol fel yr oedd cyn cael ei gymeradwyo. Gellir adfer CPH yr Uned Ynysu TB os gwneir cais llwyddiannus am ailgymeradwyaeth yn y dyfodol.

Mae APHA yn un o Asiantaethau Gweithredol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac mae hefyd yn gweithio ar ran Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a'r Asiantaeth Safonau Bwyd i ddiogelu iechyd anifeiliaid a phlanhigion er budd pobl, yr amgylchedd a'r economi.